O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 890 (Cy. 134)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Cwm-du, Tretŵr a Pharc Glan-wysg, Powys) (Ffordd Gyfyngedig, Terfynau Cyflymder 30 mya, 40 mya a 50 mya) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Awst 2023* |
| *Yn dod i rym* | *10 Awst 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A479, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Cwm-du, Tretŵr a Pharc Glan-wysg, Powys) (Ffordd Gyfyngedig, Terfynau Cyflymder 30 mya, 40 mya a 50 mya) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Awst 2023.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84 gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunkroad*") yw cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg (Crucywel) i Lys-wen; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Dirymu**

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr a Chwm-du, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1996(**1**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Awst 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0496 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 7 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0496.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C0115 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491.

## ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghwm-du sy'n ymestyn o bwynt 155 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112 i gyfeiriad gogleddol hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112.

## ATODLEN 3

Y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r de-ddwyrain o Dretŵr sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491 i gyfeiriad de-ddwyreiniol i'w chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg.

---

(**1**) O.S. 1996/1574.